# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 20-09 (p1) : 14 Hydref 2009**

# Adran yr Economi a Thrafnidiaeth

## Cynigion ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2010-11

## Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Menter a Dysgu

**Cyflwyniad**
Mae'r papur hwn yn rhoi cefndir a gwybodaeth i'r Pwyllgor Menter a Dysgu am y cynigion ar gyfer cyllideb rhaglen Adran yr Economi a Thrafnidiaeth. Amlinellir y rhain yn y cyhoeddiad am y gyllideb ddrafft a wnaed gan y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus ar 6 Hydref 2009.

**Y Cefndir**
Yn ei gyfarfod ar 13 Gorffennaf 2009, cytunodd y Cabinet ar y dyraniadau lefel uchel ar gyfer Cyllideb ddrafft 2010-11. Mae'r setliad wedi canolbwyntio'n bennaf ar fynd i'r afael â'r arbedion angenrheidiol o ran cyllid cyfalaf a refeniw yn ogystal â dyrannu gwariant refeniw ychwanegol ar gyfer rhaglenni penodol. Yn gyffredinol, y Bwrdd Buddsoddi Cyfalaf Strategol fydd yn penderfynu ar gyllid prosiectau cyfalaf newydd.

Mae Cyllideb ddrafft 2010-11 yn dangos gostyngiad cyffredinol yn Nherfyn Gwariant Adrannol yr Adran o ryw £56m o'i gymharu â 2009-10, yn bennaf oherwydd y canlynol:

Cyflymu ymhlith prosiectau cyfalaf a ddygwyd ymlaen o 2010-11 i 2009-10 - £33.4m (effaith gostyngiad mewn cyllid yn 2010-11 o £16.7 miliwn a ddygwyd ymlaen i 2009-10). Dyraniad cyfalaf ychwanegol yn 2009-10 yn unig, yn sgil symiau canlyniadol cyllideb y DU - £7m. Mae angen arbed £28m, ond rhoddir dyraniad refeniw ychwanegol o £12m. (Mae £6m net o hwn wedi'i ddarparu drwy ymarferion asesu adnoddau mewn blynyddoedd blaenorol).

Mae'r tabl ariannol cryno canlynol yn dangos yr effaith gyffredinol ar gyllideb sylfaenol Terfyn Gwariant Adrannol yr AETh.

**Tabl Ariannol Cryno:**

| | **Cyllidebau Diwygiedig 2009-10 £,000** | **Cynlluniau Dangosol 2010-11 £,000** | **Cynlluniau Newydd 2010-11 £,000** |
|---|---|---|---|
| Refeniw | 718,106 | 725,670 | 722,958* |
| Cyfalaf | 491, 605 | 468,495 | 431,012 |
| **Cyfanswm TGA** | **1,209,711** | **1,194,165** | **1,153,970** |

* Mae hyn yn cynnwys £283.8m o gostau nad ydynt yn ariannol, hy dibrisiant ac amhariadau o ran seilwaith.

**Trosolwg a Datganiad o Flaenoriaethau**

Mae'r AETh wedi ymrwymo i barhau i weithredu'r agenda flaengar a nodir yn '*Cymru'n Un*', gyda gweledigaeth gyffredinol ar gyfer economi gref, lawn menter. Bu'n rhaid i'r Adran ailffocysu ei blaenoriaethau yn ystod 2009-10 i fynd i'r afael ag anghenion penodol busnesau yn ystod y dirywiad economaidd, ond bydd hefyd yn cynllunio ar gyfer y dyfodol wrth i'r economi wella.

Gan gydnabod bod yn rhaid inni dargedu ein buddsoddiad lle cawn yr effaith fwyaf, rhoddir y ffocws ar y sectorau hynny sydd o'r pwys strategol mwyaf i Gymru. Bydd yr Adran yn gweithredu yn ôl yr egwyddor hon gan barhau i gyflawni ei phrif flaenoriaethau:

- **Gweithredu Cymorth Hyblyg i Fusnes a chadw busnesau hyfyw i fasnachu yn ystod y dirywiad** - mae Cymorth Hyblyg i Fusnes yn seiliedig ar y Gronfa Fuddsoddi Sengl ac mae'n tynnu ynghyd yr ystod lawn o gymorth busnes i ddiwallu anghenion buddsoddi busnesau, cefnogi gwaith datblygu menter, annog busnesau i ddechrau, hwyluso twf busnesau, hybu mewnfuddsoddi a helpu cwmnïau i fasnachu'n rhyngwladol.

- **Helpu busnesau i fod yn fwy cystadleuol drwy ymchwil a masnacheiddio** - mae buddsoddi mewn arloesi, ymchwil a masnacheiddio yn hollbwysig i allu busnesau i fod yn gystadleuol yn y dyfodol yng Nghymru a manteisio ar y cyfleoedd wrth i'r economi wella.

- **Trafnidiaeth** - Er mwyn cydymffurfio â Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol, rydym wedi cynnig camau a chyllid i gyflawni amcanion o ran teithiau cynaliadwy; gwella'r cydgysylltu rhwng dulliau trafnidiaeth gyhoeddus; gwella llwybrau domestig rhwng aneddiadau a safleoedd allweddol yng Nghymru; gwella cysylltiadau rhyngwladol; a gwella diogelwch ffyrdd a'n heffaith ar yr amgylchedd.

- **Anweithgarwch Economaidd ac Adfywio** - mae Ardaloedd Adfywio Strategol wedi'u datblygu gan gynnwys sefydliadau o bob rhan o'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol a chan greu cysylltiadau rhwng meysydd angen critigol a meysydd cyfle penodol. Mae partneriaethau Ardaloedd Adfywio Strategol yn edrych ar feysydd fel cyflogaeth, sgiliau, menter gymdeithasol, y Gymraeg, cydraddoldeb ac amrywiaeth, datblygu cymunedol a thai mewn ffordd gyfannol ac yn llunio cynlluniau i sicrhau canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

***Meysydd Rhaglenni Gwariant (MRhG)***

### *Cyffredinol*

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud newidiadau i strwythur Meysydd y Rhaglenni Gwariant a'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb a sut y'u cyflwynir i adlewyrchu camau gweithredu allweddol arfaethedig sy'n rhan o ddull cynllunio diwygiedig ar gyfer 2010-11.

O ganlyniad, mae strwythur AETh o Feysydd Rhaglenni Gwariant a Llinellau Gwariant yn y Gyllideb yn wahanol i'r rhai a gyhoeddwyd ar gyfer 2009-10.

I sicrhau cymhariaeth briodol â'r flwyddyn flaenorol, mae holl ffigurau 2009-10 wedi'u hailddatgan gan ddefnyddio strwythur diwygiedig y MRhG isod, a fabwysiadwyd ar gyfer 2010-11.

**Cymorth Cwsmeriaid a Datblygu Polisïau a Strategaethau**

| Meysydd Gweithredu MRhG | Math o Wariant | Cyllidebau Diwygiedig 2009-10 £,000 | Cynlluniau Dangosol 2010-11 £,000 | Cynlluniau Newydd 2010-11 £,000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cymorth Cwsmeriaid a Datblygu Polisïau a Strategaethau** | Refeniw | **3,361** | **3,348** | **3,088** |

Mae'r MRhG hwn yn cynnwys help i gynnig gwasanaeth cymorth canolog i gwsmeriaid ar gyfer darpar fusnesau a busnesau sy'n bodoli eisoes, drwy ganolfan gyswllt, gwefan ac un rhif ffôn cymorth hyblyg i fusnes ar gyfer Cymru gyfan. Bydd yn cynnwys hefyd waith ymchwil i wasanaethau cwsmeriaid a'u gwerthuso, cydweithio â phartneriaid i gyflwyno negeseuon busnes cydlynol yn ogystal ag ymgysylltu â chwsmeriaid a rhannu arferion gorau. Bydd hwn hefyd yn rhoi cyllid ar gyfer gweithgareddau i ddatblygu polisi a strategaeth i fynd i'r afael â materion allweddol sy'n effeithio ar economi Cymru..

Bydd y MRhG hwn yn cefnogi ymrwymiadau Cymru'n Un o ran mabwysiadu dull Cymru gyfan o ddatblygu economaidd, datblygu Strategaeth Swyddi Gwyrdd i Gymru gyfan, cymorth i'r fforwm gweithgynhyrchu a chefnogaeth i Gynllun y Sector Gwirfoddol.

Gwelwyd gostyngiad bach yn y gyllideb i gyfrannu i'r targed effeithlonrwydd cyffredinol.

**Marchnata Domestig a Rhyngwladol a Digwyddiadau Mawr**

| Meysydd Gweithredu MRhG | Math o Wariant | Cyllidebau Diwygiedig 2009-10 £,000 | Cynlluniau Dangosol 2010-11 £,000 | Cynlluniau Newydd 2010-11 £,000 |
|---|---|---|---|---|
| **Marchnata Domestig a Rhyngwladol a Chefnogi Digwyddiadau Mawr** | Refeniw | 8,890 | 8,328 | 9,528 |
| | Cyfalaf | 800 | 400 | 400 |
| | Cyfanswm | **9,690** | **8,728** | **9,928** |

Bydd amcanion marchnata yn ceisio codi proffil rhyngwladol Cymru a datblygu a hyrwyddo brand Cymru. Cyflawnir hyn drwy ddwy ymgyrch gyffredinol a fydd yn canolbwyntio ar y marchnadoedd domestig a rhyngwladol. Bydd y gwariant yn cefnogi hefyd Ymrwymiad *Cymru'n Un* i gyfrannu at ddigwyddiadau chwaraeon mawr fel Cwpan Ryder.

Mae'r MRhG hwn yn cyfrannu at ymrwymiadau Cymru'n Un i hyrwyddo cyfraniad Cymru i ddigwyddiadau chwaraeon gan adeiladu ar Gwpan Ryder, adeiladu ar waith i godi proffil rhyngwladol Cymru, a datblygu a hyrwyddo brand Cymru.

Yn gyffredinol, mae'r gyllideb yn parhau i fod yn unol â blwyddyn ariannol 2009-10.

**Busnesau'n Dechrau, yn Tyfu, yn Ffynnu ac yn Buddsoddi**

| Meysydd Gweithredu MRhG | Math o Wariant | Cyllidebau Diwygiedig 2009-10 £,000 | Cynlluniau Dangosol 2010-11 £,000 | Cynlluniau Newydd 2010-11 £,000 |
|---|---|---|---|---|
| **Busnesau'n Dechrau, yn Tyfu, yn Ffynnu ac yn Buddsoddi** | Refeniw | 36,605 | 36,849 | 34,059 |
| | Anariannol | 497 | 497 | 497 |
| | Cyfalaf | 82,681 | 82,682 | 77,899 |
| | Cyfanswm | **119,783** | **120,028** | **112,455** |

Bydd y MRhG hwn yn canolbwyntio ar gymorth cyn dechrau ac ar ôl dechrau, sefydlu mentergarwch mewn addysg, gwella mynediad i gymorth ar gyfer mentrau cymdeithasol, grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol a datblygu a chefnogi rhwydweithiau strategol. Bydd yn cefnogi menter ac yn ei gwneud yn haws cael cyllid buddsoddi o'r Gronfa Fuddsoddi Sengl a Chyllid Cymru. Bydd cymorth Twf Busnes yn cynnwys cyngor arbenigol a chyffredinol o dan Cymorth Hyblyg i Fusnes a'r Gronfa Fuddsoddi Sengl yn ogystal â rhwydweithio i hwyluso cyfnewid gwybodaeth a chyfleoedd i gydweithredu.

Bydd y MRhG yn cyfrannu i'r ymrwymiad yn Cymru'n Un i ysgogi menter a thwf ymhlith busnesau.

Fel rhan o'r gofyniad i sicrhau arbedion o £28m ar draws y Prif Grŵp Gwariant, mae'r gyllideb wedi'i lleihau £7.3m o £119.8m i £112.5m. Bydd y maes gweithgarwch hwn yn rhan o adolygiad cyffredinol o'r aliniad strategol ar draws y Grŵp Datblygu Economaidd gyda'r nod o sicrhau arbedion effeithlonrwydd a lleihau'r effaith ar lefel y gwasanaethau a ddarperir hyd y bo modd.

**Datblygu Seilwaith Cynaliadwy ar gyfer Datblygu Economaidd**

| MRhG | Math o Wariant | Cyllidebau Diwygiedig 2009-10 £,000 | Cynlluniau Dangosol 2010-11 £,000 | Cynlluniau Newydd 2010-11 £,000 |
|---|---|---|---|---|
| **Darparu cyflenwad o Dir ac Adeiladau** | Refeniw | 8,340 | 8,102 | 8,102 |
| | Anariannol | 33,159 | 33,159 | 33,159 |
| | Cyfalaf | 28,726 | 22,116 | 16,416 |
| | Cyfanswm | **70,225** | **63,377** | **57,677** |

Mae'r MRhG hwn yn cyfrannu i ymrwymiadau Cymru'n Un drwy gefnogi hinsawdd gadarnhaol i fusnesau dyfu drwy sicrhau cyflenwad digonol a phriodol o safleoedd ac adeiladau.
Bydd gwariant yn y maes hwn yn ychwanegu gwerth i gynlluniau adfywio strategol ac yn cefnogi blaenoriaethau economaidd ehangach drwy wella seilwaith, cyflogaeth, eiddo a thai fforddiadwy.

Mae'r gyllideb gros o £57.7m £12.5m yn llai na'r hyn a ddangoswyd ar gyfer 2009-10 yn sgil dwyn ymlaen brosiectau cyfalaf o 2010-11 i 2009-10.

**Rhyngwladoli Economi Cymru**

| MRhG | Math o Wariant | Cyllidebau Diwygiedig 2009-10 £,000 | Cynlluniau Dangosol 2010-11 £,000 | Cynlluniau Newydd 2010-11 £,000 |
|---|---|---|---|---|
| **Masnach Rhyngwladol a Mewnfuddsoddi** | Refeniw | **5,975** | **5,975** | **5,525** |

Bydd y camau a gymerir gan y MRhG hwn yn canolbwyntio ar roi cymorth masnach rhyngwladol arbenigol i gwmnïau Cymru a diogelu mewnfuddsoddi newydd i Gymru o farchnadoedd byd-eang.

Bydd y MRhG yn cyfrannu'n benodol i ymrwymiadau Cymru'n Un i weithio i sicrhau bod Cymru yn dod yn genedl fasnachu gryfach ac yn bartner pwysig mewn cysylltiadau rhyngwladol ac wrth ymwneud â materion Cymreig dramor.

Bydd gweithgareddau rhyngwladol yr Adran yn rhan o'r adolygiad cyffredinol o aliniad strategol y Grŵp Datblygu Economaidd ac o ganlyniad mae'r gyllideb wedi'i lleihau £450k i gyfrannu i'r targed effeithlonrwydd cyffredinol.

**Datblygu Cymru fel Canolbwynt Arloesi, Technoleg a Masnacheiddio**

| MRhG | Math o Wariant | Cyllidebau Diwygiedig 2009-10 £,000 | Cynlluniau Dangosol 2010-11 £,000 | Cynlluniau Newydd 2010-11 £,000 |
|---|---|---|---|---|
| **Datblygu Cymru fel Canolbwynt Arloesi, Technoleg a Masnacheiddio** | Refeniw | 17,531 | 16,466 | 19,196 |
| | Cyfalaf | 5,794 | 5,794 | 2,794 |
| | Cyfanswm | **23,325** | **22,260** | **21,990** |

Bydd y cymorth a roddir yn mynd i'r afael â'r heriau sy'n codi yn sgil yr hinsawdd economaidd ac yn rhoi cyllid i weithio gyda busnesau i ddatblygu'r cynnyrch a'r prosesau newydd a fydd yn diogelu eu gallu i gystadlu yn y dyfodol drwy ddarparu gwasanaethau arloesi a thechnoleg, darparu rhwydwaith o ganolfannau arloesi a chyfleusterau ymchwil a datblygu, hybu academia a chydweithredu rhwng busnesau, hyrwyddo twf diwydiant drwy arloesi a chydweithredu a hyrwyddo Cymru yn ganolfan Arloesi a Thechnoleg. Bydd cyllid hefyd i gefnogi prosiectau arloesi ar draws sawl sector.

Bydd yn parhau i weithredu yn ôl blaenoriaethau allweddol Cymru'n Un, polisi gwyddoniaeth, ymchwil ac agenda masnacheiddio.

Yn ogystal â gostyngiad o £1.3m yn y gyllideb, yn sgil ymarfer asesu adnoddau y llynedd, mae disgwyl i'r adolygiad o aliniad strategol y Grŵp Datblygu Economaidd arbed tua £4.2m yn y maes gweithgarwch hwn. Unwaith eto, gobeithir cadw'r effaith i'r lefel isaf bosibl ar y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer ein cwsmeriaid. Ar wahân i hyn, mae £4m arall wedi'i ddyrannu i wneud gwaith Ymchwil a Datblygu newydd mewn cydweithrediad â busnesau.

**Gwella Cysylltedd Domestig (Rhanbarthol a Chenedlaethol)**

| MRhG | Math o Wariant | Cyllidebau Diwygiedig 2009-10 £,000 | Cynlluniau Dangosol 2010-11 £,000 | Cynlluniau Newydd 2010-11 £,000 |
|---|---|---|---|---|
| **Gwella Cysylltedd Domestig** | Refeniw | 176,227 | 198,753 | 197,103 |
| | Anariannol | 95,064 | 95,064 | 95,064 |
| | Cyfalaf | 106,947 | 112,114 | 103,834 |
| | Cyfanswm | **378,238** | **405,931** | **396,001** |

Bydd y cyllid yn hwyluso rhwydwaith trafnidiaeth mwy effeithiol, diogel, effeithlon a chynaliadwy yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys gwariant i wella a moderneiddio cefnffyrdd domestig, gan gyflawni dyletswydd statudol y Llywodraeth i reoli, gweithredu a chynnal diogelwch y rhwydwaith gan ystyried anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Yn ogystal, bydd yna welliannau yng ngwasanaethau rheilffyrdd teithwyr yn sgil gwella a moderneiddio seilwaith rheilffyrdd a stoc dreigl.

Mae tablau'r gyllideb yn dangos cynnydd cyffredinol yn y gyllideb o £17.8m rhwng 2010/11 a 2009/10. Y prif reswm am hyn yw: i) bod y gyllideb sylfaenol refeniw ar gyfer 2010/11 wedi'i chynyddu o ryw £9m yn dilyn ymarfer asesu adnoddau 2008 i gynnig cyllid ychwanegol ar gyfer costau rheilffyrdd; ii) er mwyn rheoli pwysau refeniw fel tocynnau rhatach, bod y gyllideb graidd yn 2009-10 yn unig wedi'i hailddyrannu i linellau gwariant cyllidebol eraill. Ni welwyd gostyngiad yn y gwasanaethau yn 2009-10 gan fod y gyllideb graidd wedi'i hategu gan Gyllid Ewropeaidd na adlewyrchir yn ffigurau Tabl 4.1. iii) er gwaethaf y cynnydd hwn, fod y dyraniad o'r gyllideb gyfalaf £3.1m yn llai na'r hyn a ddangoswyd ar gyfer 2009/10 yn sgil dwyn ymlaen raglenni cyfalaf o 2010/11 i 2009/10.

**Gwella Cysylltedd Rhyngwladol**

| MRhG | Math o Wariant | Cyllidebau Diwygiedig 2009-10 £,000 | Cynlluniau Dangosol 2010-11 £,000 | Cynlluniau Newydd 2010-11 £,000 |
|---|---|---|---|---|
| **Gwella Cysylltedd Rhyngwladol** | Refeniw | 35,136 | 35,307 | 35,457 |
| | Anariannol | 155,104 | 155,104 | 155,104 |
| | Cyfalaf | 59,612 | 42,403 | 38,683 |
| | Cyfanswm | **249,852** | **232,814** | **229,244** |

Mae'r MRhG yn cynnwys gweithgareddau allweddol sy'n ymwneud â chysylltiadau rhyngwladol drwy Ffyrdd, yr Awyr a'r Môr, sy'n hollbwysig i ffyniant economaidd gan eu bod yn cysylltu Cymru â'r rhwydwaith trafnidiaeth byd-eang ehangach.

Bydd y cyllid yn cefnogi'r gwaith o wella a moderneiddio cefnffyrdd rhyngwladol yng Nghymru, yn enwedig traffordd yr M4 a'r A55. Bydd yn cyflawni dyletswydd statudol y Cynulliad i reoli, gweithredu a chynnal diogelwch y rhwydwaith gan roi ystyriaeth i anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae hyn yn cynnwys cymorth i gynlluniau priffyrdd mawr, cynlluniau gwella, rhaglen i wneud gwell defnydd o'r rhwydwaith presennol, ynghyd â rhaglen drwsio ac adnewyddu ffyrdd a phontydd rhyngwladol. Mae cymorth hefyd i wasanaethau awyr a chymorth technegol i ymgeiswyr am grant Cyfleusterau Cludo Nwyddau i wella neu gynnal gweithgarwch porthladdoedd.

Mae dyraniad cyffredinol y gyllideb £20.6m yn llai na'r hyn a ddangoswyd ar gyfer 2009/10, yn bennaf oherwydd arbedion effeithlonrwydd, rhaglenni cyfalaf a dynnwyd ymlaen o 2010/11 i 2009/10 a dyraniad cyllideb ychwanegol yn 2009/10 yn unig. Hefyd, mae'r gyllideb wedi'i hailddyrannu o Feysydd eraill yn 2009-10, er enghraifft MRhG diogelwch ffyrdd, i ddarparu rhaglenni craidd sy'n effeithio ar ddiogelwch ffyrdd.

**Gwella Trafnidiaeth Integredig (Lleol)**

| MRhG | Math o Wariant | Cyllidebau Diwygiedig 2009-10 £,000 | Cynlluniau Dangosol 2010-11 £,000 | Cynlluniau Newydd 2010-11 £,000 |
|---|---|---|---|---|
| **Gwella Trafnidiaeth Integredig (Lleol)** | Refeniw | 102,006 | 93,006 | 93,006 |
| | Cyfalaf | 135,917 | 130,917 | 120,917 |
| | Cyfanswm | **237,923** | **223,923** | **213,923** |

Bydd y MRhG hwn yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu trafnidiaeth integredig yn lleol ac yn rhanbarthol, yn unol â Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Mae'n cynnwys grantiau i Awdurdodau Lleol ar gyfer gwasanaethau bws lleol sy'n derbyn cymhorthdal ac sy'n angenrheidiol yn gymdeithasol, cynlluniau gwella trafnidiaeth gynaliadwy lleol, rheoli'r cynllun tocynnau bws rhatach ar gyfer pobl hŷn ac anabl yn ogystal â datblygu Menter Trefi Teithio Cynaliadwy.

Bydd y cyllid hefyd yn ei gwneud yn bosibl i Awdurdodau Lleol gynnal a gwella'r rhwydwaith ffyrdd lleol, gan gynnwys cynlluniau ffordd lleol a'r grant lleol ar gyfer cynnal a chadw ffyrdd. Bydd hefyd yn cefnogi mentrau trafnidiaeth lleol, ee cyllid i gefnogi'r consortia trafnidiaeth rhanbarthol, gwasanaethau gwybodaeth am drafnidiaeth

gyhoeddus, cynlluniau cerdded a beicio, cynlluniau teithio a chyhoeddusrwydd sy'n ymwneud â gwella'r gwaith o integreiddio a gweithredu trafnidiaeth leol.

Bydd y gefnogaeth yn cyfrannu at sawl un o ymrwymiadau Cymru'n Un, gan gynnwys rhwydwaith bysus teithiau hir Traws-Cambria Cymru gyfan, sicrhau tocynnau electronig ar gyfer teithio ar drên a bws erbyn 2011, sefydlu Pwyllgor Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus i Gymru a buddsoddi mewn trafnidiaeth gymunedol, beicio, llwybrau diogel mewn cymunedau a pharthau 20mya.

Mae dyraniad cyllideb 2010/11 yn dangos gostyngiad o £24m o'i gymharu â 2009-10. Mae dyraniad y gyllideb gyfalaf £15m yn llai na'r hyn a ddangoswyd ar gyfer 2009/10 yn sgil dwyn ymlaen raglenni cyfalaf ac mae arbedion wedi codi o ostyngiad yn y grant cynnal a chadw ffyrdd lleol. Mae'r gyllideb refeniw ar gyfer y MRhG hwn £9m yn is nag yn 2009/10, yn bennaf oherwydd yr adolygiad o'r trefniadau ad-dalu am docynnau rhatach a'r diffiniad tynnach disgwyliedig rhwng costau refeniw a chyfalaf o fewn y cynllun.

**Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd ac Effaith Trafnidiaeth ar yr Amgylchedd**

| MRhG | Math o Wariant | Cyllidebau Diwygiedig 2009-10 £,000 | Cynlluniau Dangosol 2010-11 £,000 | Cynlluniau Newydd 2010-11 £,000 |
|---|---|---|---|---|
| **Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd ac Effaith Trafnidiaeth ar yr Amgylchedd** | Refeniw | 8,397 | 8,397 | 8,397 |
| | Cyfalaf | 15,716 | 18,257 | 18,257 |
| | Cyfanswm | **24,113** | **26,654** | **26,654** |

Bydd y MRhG hwn yn cyllido'r camau a gymerir tuag at gyrraedd targedau'r DU ar gyfer 2010 o ranlleihau nifer damweiniau ffordd. Bydd cynlluniau a mentrau a ariennir yn cefnogi'r gwaith o weithredu'r Strategaeth Diogelwch Ffyrdd i Gymru ac yn cynnwys grantiau i awdurdodau lleol ar gyfer peirianneg diogelwch ffyrdd, addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd, ynghyd â rhaglen ar gyfer cynlluniau gwella diogelwch lleol ar y rhwydwaith cefnffyrdd. Rhoddir cymorth penodol ar gyfer mentrau diogelwch ffyrdd lleol a chynlluniau lleihau sŵn.

Mae dyraniad y gyllideb £2.6m yn fwy na'r hyn a ddangoswyd ar gyer 2009/10 yn sgil ailddyrannu yn 2009/10 i MRhG arall sydd hefyd yn ceisio gwella diogelwch ar y ffyrdd.

**Gweithredu Ardaloedd Adfywio Strategol**

| MRhG | Math o Wariant | Cyllidebau Diwygiedig 2009-10 £,000 | Cynlluniau Dangosol 2010-11 £,000 | Cynlluniau Newydd 2010-11 £,000 |
|---|---|---|---|---|
| **Gweithredu Ardaloedd Adfywio Strategol** | Refeniw | 1,950 | 2,215 | 2,215 |
| | Cyfalaf | 33,288 | 43,108 | 41,108 |
| | Cyfanswm | **35,238** | **45,323** | **43,323** |

Mae'r MRhG hwn yn rhoi arian i ddatblygu Ardaloedd Adfywio Strategol allweddol. Ymhlith yr Ardaloedd Adfywio Strategol a gefnogir gan y MRhG hwn mae Môn a Menai, Blaenau'r Cymoedd, Arfordir Gogledd Cymru, y Cymoedd Gorllewinol ac Abertawe.

Ym mhob Ardal Adfywio Strategol, rhoddir cymorth i brosiectau amrywiol i gefnogi strategaethau i sicrhau mwy o hyder i fuddsoddi a pherfformiad cymdeithasol-economaidd gwell mewn ardaloedd lle mae'n rhaid newid y strwythur economaidd. Bydd y cyllid yn darparu ar gyfer ystod o gamau sy'n ymwneud â buddsoddi mewn cyfleoedd a nodir ym mhob Ardal Adfywio Strategol. Bydd y gefnogaeth yn cynnwys adfywio'r amgylchedd, tir ac adeiladau a chymunedau drwy fuddsoddi mewn pobl a llefydd.

Mae cyfanswm y cynnydd yn y gyllideb gyfalaf a refeniw, sef £8.1m yn 2010/11 yn adlewyrchu'r amcan i dargedu'r rhan fwyaf o'r buddsoddiad mewn Ardaloedd Adfywio Strategol, gyda gostyngiad cymesur yn y buddsoddiad a'r gweithgarwch yn yr ardaloedd a gafodd sylw yn y gorffennol.

**Rheoli'r Gwaith o Weithredu Ardaloedd Adfywio o'r Gorffennol**

| MRhG | Math o Wariant | Cyllidebau Diwygiedig 2009-10 £,000 | Cynlluniau Dangosol 2010-11 £,000 | Cynlluniau Newydd 2010-11 £,000 |
|---|---|---|---|---|
| **Rheoli'r Gwaith o Weithredu Ardaloedd Adfywio o'r Gorffennol** | Refeniw | 11,113 | 10,453 | 10,453 |
| | Cyfalaf | 18,021 | 7,147 | 7,147 |
| | Cyfanswm | **29,134** | **17,600** | **17,600** |

I hwyluso cyfnod pontio o ran cymorth adfywio, bydd cyllid o'r MRhG hwn yn ei gwneud yn bosibl cyflawni'r ymrwymiadau presennol ar gyfer strategaethau lleol sy'n bodoli eisoes er mwyn sicrhau'r effaith economaidd arfaethedig gyflawn.

Mae'r MRhG hefyd yn darparu'r arian sydd ei angen ar Awdurdod Harbwr Caerdydd er mwyn cyflawni'r swyddogaethau, y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau statudol ac anstatudol a nodir yn fanwl yn Neddf Morglawdd Bae Caerdydd 1993. Trosglwyddwyd yr hawliau a'r rhwymedigaethau sy'n codi o dan Gytundeb Adran 165, ac a oedd yn perthyn i Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru pan ddaeth y Gorfforaeth honno i ben.

Mae cyfanswm cyllideb y cyfalaf a'r refeniw yn 2010/11 ar gyfer ardaloedd a gâi arian yn y gorffennol £11.5m yn llai na'r hyn a ddangoswyd ar gyfer 2009/10 wrth i rai prosiectau parhaus agosáu at gael eu cwblhau ac wrth i adnoddau gael eu dyrannu tuag at gyflawni amcanion cynlluniau gweithredu Ardaloedd Adfywio Strategol.

**Paratoi Ardaloedd Adfywio Strategol ar gyfer y dyfodol**

| MRhG | Math o Wariant | Cyllidebau Diwygiedig 2009-10 £,000 | Cynlluniau Dangosol 2010-11 £,000 | Cynlluniau Newydd 2010-11 £,000 |
|---|---|---|---|---|
| **Paratoi ardaloedd adfywio strategol ar gyfer y dyfodol** | Refeniw | 50 | 50 | 50 |
| | Cyfalaf | 2,063 | 3,017 | 3,017 |
| | Cyfanswm | **2,113** | **3,067** | **3,067** |

Yn 2008, mabwysiadodd Llywodraeth Cynulliad Cymru weledigaeth newydd ar gyfer adfywio a oedd yn adeiladu ar yr ymrwymiadau yn Cymru'n Un a'r prosiectau enghreifftiol ym Mlaenau'r Cymoedd a Môn a Menai i ddarparu dull mwy strategol, hirdymor a chyfannol o adfywio.

Mae'r dull ffres hwn o adfywio yn ceisio canolbwyntio buddsoddiad mewn pobl a llefydd mewn Ardaloedd Adfywio Strategol dros gyfnod diffiniedig o amser gan arwain at ffocysu cymorth ar raglenni tymor hwy, mwy o faint yn unol â'r blaenoriaethau allweddol. Bydd y cyllid o'r MRhG hwn yn cefnogi'r datblygiad hwn.

Mae dyraniad uwch yn y gyllideb o £1m yn 2010/11 yn darparu ar gyfer gwaith datblygu hanfodol a pharhaus mewn nifer fach o Ardaloedd Adfywio Strategol ychwanegol sydd dan ystyriaeth.

**Rhaglenni a Gwasanaethau Corfforaethol**

| MRhG | Math o Wariant | Cyllidebau Diwygiedig 2009-10 £,000 | Cynlluniau Dangosol 2010-11 £,000 | Cynlluniau Newydd 2010-11 £,000 |
|---|---|---|---|---|
| **Rhaglenni a Gwasanaethau Corfforaethol** | Refeniw | 10,773 | 7,192 | 5,550 |
| | Cyfalaf | 2,040 | 540 | 540 |
| | Cyfanswm | **12,813** | **7,732** | **6,090** |

Mae'r rhaglenni a'r gwasanaethau corfforaethol yn ceisio sicrhau y bydd yr Adran yn gweithredu ar ymrwymiadau Cymru'n Un, y Fframwaith Strategol a blaenoriaethau ehangach y Gweinidog. Bydd y cyllid yn cefnogi prosiectau Ymchwil a Gwerthuso Economaidd, y Panel Ymchwil a Chynghori Economaidd, ac yn cyfrannu at Fenter Her Iechyd Cymru a swyddogaethau a gwasanaethau corfforaethol cyffredinol y Trysorlys.

Mae'r gyllideb yn dangos gostyngiad o £6.7m. Y prif reswm am hyn yw'r ffaith bod £1.7m wedi'i drosglwyddo o Brif Grŵp Gwariant AETh mewn perthynas â'r gyllideb Cysylltiadau Rhyngwladol a gostyngiad pellach o £5m a ddyrannwyd i'r llinell gyllidebol hon yn 2009-10 yn unig, er mwyn blaenoriaethu cyllid ar gyfer gweithredu tymor byr penodol mewn perthynas â'r hinsawdd economaidd bresennol.

**Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus**

| MRhG | Math o Wariant | Cyllidebau Diwygiedig 2009-10 £,000 | Cynlluniau Dangosol 2010-11 £,000 | Cynlluniau Newydd 2010-11 £,000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus** | Refeniw | **6,600** | **6,115** | **6,115** |

Bydd y gwariant yn cefnogi prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus sy'n cydgasglu'r galw am fand eang ar draws rhannau mawr o'r sector cyhoeddus a bydd yn cynnig ateb un rhwydwaith i Gymru gyfan.

Gwelwyd gostyngiad bach yn y gyllideb o £485k a oedd yn deillio o'r gofyniad i ddod o hyd i arbedion refeniw o Ymarfer Asesu Adnoddau'r flwyddyn flaenorol.

**Rheoli'r Gwaith o Weithredu Rhaglenni Strwythurol yr UE yng Nghymru**

| MRhG | Math o Wariant | Cyllidebau Diwygiedig 2009-10 £,000 | Cynlluniau Dangosol 2010-11 £,000 | Cynlluniau Newydd 2010-11 £,000 |
|---|---|---|---|---|
| **Rheoli'r gwaith o weithredu rhaglenni strwythurol yr UE yng Nghymru** | Refeniw | 1,328 | 1,290 | 1,290 |
| | Cronfeydd Strwythurol Refeniw | 150,486 | 150,486 | 150,486 |
| | Cronfeydd Strwythurol Derbyniadau Refeniw | (150,486) | (150,486) | (150,486) |
| | Cronfeydd Strwythurol Cyfalaf | 83,372 | 83,372 | 83,372 |
| | Cronfeydd Strwythurol Derbyniadau Cyfalaf | (83,372) | (83,372) | 83,372 |
| | Cyfanswm | **1,328** | **1,290** | **1,290** |

Mae'r MRhG hwn yn ariannu rhai costau gweinyddu sy'n codi yn sgil rhedeg y rhaglenni cronfeydd strwythurol a reolir gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.